OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1794

# Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002

## Rhan II

CYFNODAU CYCHWYNNOL YR APELAU

**Hysbysu'r partïon o'r weithdrefn apêl**

**5.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, heb fod yn gynt na diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (2), roi hysbysiad i'r apelydd ac i'r atebydd o'r ffurf y mae'r apêl i'w chymryd.

(2) Rhaid peidio â rhoi hysbysiad o dan baragraff (1):

(a) cyn bod 21 diwrnod yn dirwyn i ben o'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad neu'r hysbysiadau a roddwyd neu a gyhoeddwyd o dan reoliad 6(1) neu (b) fel y dyddiad erbyn pryd y gellid gwneud sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol; neu

(b) yn achos apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf, ar ôl i dri mis ddirwyn i ben o ddyddiad dyroddir map dros dro y mae'r apêl yn berthnasol iddo,

p'un bynnag yw'r diweddaraf.

(3) Rhaid bod yr hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) wedi'i ddyddio a rhaid iddo ddatgan a yw'r apêl i gymryd ffurf;

(a) ymchwiliad lleol;

(b) gwrandawiad; neu

(c) nid (a) na (b), a chan hynny caiff ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(4) Y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad o dan baragraff (1) yw'r "dyddiad cychwyn" at ddibenion y Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r apêl y mae'n cyfeirio ati a rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

(5) Os yw'r apêl i gymryd ffurf ymchwiliad lleol, ac mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cynnal cyfarfod cyn-ymchwiliad, rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) hefyd gydymffurfio â gofynion rheoliad 18(2)(a).